


# Y Grŵp Cyngor Technegol

## Lleihau'r cyfnod ynysu gyda chefnogaeth profion llif unffordd ar gyfer achosion o COVID-19

28 Ionawr 2022







OGL (h) Hawlfraint y Goron 2021

# Lleihau’r cyfnod ynysu gyda chefnogaeth profion llif unffordd ar gyfer achosion o COVID-19

**26 Ionawr 2022**

- Ddydd Gwener 21 Ionawr 2022, adolygodd y Grŵp Cyngor Technegol wybodaeth modelu, technegol a gwybodaeth ynglŷn ag ymddygiad mewn perthynas â’r cynnig i leihau'r cyfnod ynysu ar gyfer unigolion sy’n profi’n bositif am COVID-19.

- Mae'r Grŵp yn fodlon bod y dadansoddiad a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU a’r Grŵp Cynghori ar Fygythiadau Feirysau Anadlol Newydd a Datblygol ac a ddarperir i'r Prif Swyddog Meddygol yn ddigon cadarn fel na cheir unrhyw fudd o ddyblygu'r gwaith (gweler y Nodyn cyngor gan Brif Swyddog Meddygol Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd ynghlwm).

- Lleihau’r cyfnod hunanynysu ar gyfer achosion positif yng Nghymru i leiafswm o bum diwrnod cyfan, gyda’r achosion yn cael eu hargymell yn gryf i gymryd dau brawf llif unffordd yn olynol ar ddiwrnodau 5 a 6 i wirio nad ydynt yn dal i fod yn heintus (positif yn ôl prawf llif unffordd a ddefnyddir yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr) cyn rhoi’r gorau i ynysu yw’r argymhelliad sydd wedi cael ei ystyried.

- Mae’r amodau fel a ganlyn:
    - Bod mwy o risg y gallai pobl sy'n ymgymryd â'r cyfnod ynysu byrrach hwn fynd ymlaen i heintio eraill (ee os na chymerir profion llif unffordd yn olynol yn gywir). Ystyrir bod y risg hon yn cael ei gwrthbwyso gan y budd i rannau eraill o gymdeithas (ee pwysau ar y gweithlu), ond ni chynhaliwyd asesiad economaidd-gymdeithasol eto i fesur maint y budd hwnnw.
    - Ceir rhybudd gan Bays et al[1] fod angen bod yn ofalus o hyd am y cyfnod wedi i rywun gael ei ryddhau o ynysu oherwydd, ym mhob senario, mae risg o ryddhau person sy’n heintus.
    - Bod unigolion sy'n profi'n bositif i barhau i ynysu y tu hwnt i'r lleiafswm o 5 diwrnod cyfan, a bod rhai unigolion yn mynd i barhau'n bositif, yn heintus (ac yn sâl) am gyfnod hwy. Mae Bays et al[1] yn rhybuddio ei bod yn allweddol i'r gyfundrefn hon nad yw pobl yn rhoi’r gorau i ynysu yn gynnar, heb y ddau brawf antigen cyflym negatif, gan fod risg sylweddol y byddant yn dal i fod yn heintus.
    - Bod cefnogaeth i gael ei rhoi er mwyn i’r profion gael eu cynnal yn olynol yn gywir (ee bod digon o brofion llif unffordd ar gael), er mwyn lleihau’r risg i eraill.
    - Bod derbynioldeb cyfnod ynysu byrrach yn gysylltiedig â’r ffaith bod yr haint sy'n debygol gydag Omicron yn llai difrifol os yw unigolyn wedi cael ei frechu’n llawn, gan gynnwys brechiad atgyfnerthu. Efallai yr hoffai’r Gweinidogion ystyried a ddylai'r rhai nad ydynt wedi'u brechu barhau i ynysu am gyfnod hwy.

[1] Mitigating isolation: The use of rapid antigen testing to reduce the impact of self-isolation periods

- Bod y polisi i gael ei ailystyried os bydd newid sylweddol negyddol o ran difrifoldeb Omicron, os bydd gostyngiad sylweddol yn effeithiolrwydd y brechlyn presennol yn erbyn derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau, neu os ceir amrywiolyn newydd mwy difrifol ei broffil.

**Ystyriaethau ymddygiadol**

- Yn unol â'r cyngor blaenorol, er mwyn sicrhau'r ymlyniad gorau posibl â pholisi os caiff ei fabwysiadu, mae'n hanfodol bod sail resymegol glir ar gyfer y polisi hwnnw. Mae'n hanfodol egluro pam y credir ei bod yn briodol newid y polisi (hy unrhyw newid o safbwynt cydbwyso'r niwed, gan gydnabod hefyd fod tebygolrwydd y bydd cyfran fach yn dal i fod yn heintus) a'r manteision y bydd y polisi'n eu cyflawni.

- Mae cael cysondeb rhwng polisïau ar draws y DU, a chysondeb â Lloegr yn benodol, yn parhau i fod yn thema gyson sy'n dod i'r amlwg o waith ymchwil, a byddai'n golygu gwell dealltwriaeth o'r polisi a gwell ymlyniad wrtho.

- Dylid egluro'r penderfyniad i symud i leiafswm o bum diwrnod cyfan yn raddol, a gefnogir gan y dystiolaeth wyddonol bresennol, fel rhan o'r dull er mwyn bod y boblogaeth yn cymryd mwy o reolaeth dros eu penderfyniadau eu hunain, gyda'r gefnogaeth briodol (ee i bennu'r risg a mynd i'r afael â hyn mewn modd cymesur).

- Gyda dull gweithredu o'r fath, mae'n fwy tebygol y ceir ymlyniad wrth y polisi, a dylai'r negeseuon ei gwneud yn gwbl glir bod hyn yn parhau'n bwysig. Yn syml, nid yw'r newid mewn polisi yn golygu bod y risg wedi diflannu, yn hytrach mae'n cael ei rheoli mewn ffordd wahanol ac mae'r canlyniadau negatif i ddau brawf llif unffordd yn olynol yn elfen hanfodol o'r dull newydd.

- Pan roddir y gorau i hunanynysu ar ôl lleiafswm o bum diwrnod cyfan, byddai angen bod yn ofalus o hyd, ond, er mwyn osgoi achosi amwysedd a diffyg ymlyniad (hy a yw'n ddiogel gwneud hynny ai peidio), bydd angen bod yn ofalus wrth lunio negeseuon ynglŷn â'r risgiau sy'n weddill, gyda phwyslais ar yr angen am eglurder ynghylch y sail resymegol a nodir uchod.

- Er mwyn cefnogi'r ymlyniad gorau posibl, dylai'r negeseuon gadarnhau pa mor gywir ydy profion llif unffordd; cadarnhau eu bod ar gael yn eang; dylid rhoi cyngor/cyfeirio at ffynonellau cyngor eraill ynghylch hwylustod a'r ffordd o'u defnyddio (er mwyn sicrhau cywirdeb hefyd); a dylid cyflwyno 'camau nesaf' clir gan gynnwys adrodd ar yr holl ganlyniadau.

- Gan gydnabod mai gov.uk sy'n darparu'r system adrodd, mae'r gwrthdaro sy'n gysylltiedig â hyn yn golygu ei fod yn llai tebygol y bydd pobl yn adrodd. Os oes angen defnyddio'r data hyn ar gyfer dibenion gwyliadwriaeth a dibenion Profi Olrhain Diogelu (gyda'r canlyniadau PCR yn gostwng), ac os oes awydd gwneud hynny, dylid ystyried symleiddio prosesau a'u gwneud yn fwy 'deniadol' eto o safbwynt unigolion.

- Gyda'r newid mewn polisi, byddai'n amserol yn awr i atgoffa pobl am y cymorth ariannol ac ymarferol sydd ar gael, gan gynllunio ymlaen llaw os yw

hynny'n bosibl (ee bod gan bobl fwyd yn y rhewgell/cwpwrdd ond cydnabod hefyd y bydd hyn yn haws i rai nag i eraill) a chadarnhau gwerth y dull cymunedol yng Nghymru – gyda phobl yn cefnogi aelodau o’r teulu, ffrindiau a chymdogion pan fo hynny'n bosibl.

- Mae gwerth atgyfnerthu'r defnydd o’r dystiolaeth bresennol i gynyddu’r tebygolrwydd y glynir at drefniadau hunanynysu drwy ddeall y prif benderfynyddion. Mae papurau defnyddiol gan Y Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig - Ymddygiadau (SPI-B) a Llywodraeth yr Alban yn crynhoi'r llenyddiaeth.